# Addysg wedi'i Hariannu ar gyfer plant 3 oed

Os yw pen-blwydd eich plentyn yn 3 oed cyn 31 Awst, 2027, mae rhai dyddiadau pwysig o ran derbyn i ysgolion y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt.

Os yw trydydd pen-blwydd eich plentyn rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr, gallwch wneud cais am Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ar gyfer **Ionawr 2027** ac am le Meithrin ar gyfer Medi 2027. Mae ceisiadau Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yn agor ar 1 Medi a dylid eu cyflwyno erbyn **23 Hydref**.

Os yw trydydd pen-blwydd eich plentyn rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth, gallwch wneud cais am Addysg Gynnar wedi'i Hariannu ar gyfer **Ebrill 2027** ac am le Meithrin ar gyfer Medi 2027. Mae ceisiadau Addysg Gynnar wedi'u Hariannu yn agor ar 2 Tachwedd a dylid eu cyflwyno erbyn **18 Rhagfyr**.

Ar gyfer pob plentyn y mae eu pen-blwydd yn 3 oed cyn 31 Awst, gallwch wneud cais am le **Meithrin** ar gyfer Medi 2027. Mae ceisiadau meithrin yn agor ar 5 Ionawr dylid eu cyflwyno erbyn **15 Chwefror**.

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais, sganiwch y cod QR neu ewch i www.wrecsam.gov.uk/derbyniadau-ysgol

Os yw eich plentyn yn gymwys ar gyfer Addysg Gynnar a Meithrin wedi'u Hariannu, bydd angen i chi wneud dau gais **ar wahân**. Nid yw sicrhau lle Addysg Gynnar wedi'i Hariannu yn gwarantu lle Meithrin yn yr un ysgol, ac nid yw sicrhau lle Meithrin yn gwarantu lle yn y Dosbarth Derbyn llawn amser yn yr un ysgol y flwyddyn ganlynol. Mae pob cyfnod addysg angen cais newydd, a phob blwyddyn mae'r lleoedd sydd ar gael yn cael eu dyrannu yn unol â'n polisi derbyn sydd i'w weld ar ein gwefan. Mae'n bwysig iawn gwneud cais yn brydlon oherwydd mae ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl ceisiadau rydyn ni'n eu derbyn erbyn y dyddiad cau.

Os ydych chi'n gweithio neu mewn addysg, gallech hefyd fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Mae'r cynnig hwn yn darparu 30 awr o ddarpariaeth addysg a gofal plant. Dylech wneud cais i Dderbyniadau Ysgol ar gyfer elfen addysg y cynnig hwn (Addysg Gynnar wedi'i Hariannu, Meithrin neu'r ddau). Gall rhieni cymwys wedyn wneud cais ar wahân ar gyfer elfen gofal plant y cynnig. Gallwch ddarllen mwy am y cynnig hwn drwy ymweld â www.wrecsam.gov.uk/service/gofal-plant/cynnig-gofal-plant-cymru